



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru:

Adroddiad Blynyddol

Gorffennaf 2014

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad

Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: CouncilTaxSupport@cymru.gsi.gov.uk

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
1 Cefndir	6
2 Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG) 2013-14	7
Beth yw pwrpas Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor?	7
Pwy sydd â hawl i Ostyngiad y Dreth Gyngor?	7
Sut mae cyfrifo'r hawl i Ostyngiad y Dreth Gyngor?	8
Beth yw'r meysydd Disgresiwn Lleol	9
3 Tueddiadau Hanesyddol Budd-dal y Dreth Gyngor	11
4 Gweithrediad CGDG yng Nghymru 2013/14	12
Nodyn am fethodoleg	12
Cyfanswm Gostyngiadau CGDG: 2014	13
Llwyth Achosion: Tueddiadau a Phatrymau	14
Cyfanswm Gostyngiadau: Tueddiad a Phatrymau	16
Statws Pasbortiwyd	18
Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog fesul Statws Pasbortiwyd	19
Bandiau'r Dreth Gyngor	23
Grwpiau Aelwydydd	34
5 Apeliadau	27
Tribiwnlys Prisio Cymru	27
6 Atodiadau	28
A: Fframwaith Deddfwriaethol	28
B: Tueddiadau Budd-dal y Dreth Gyngor	30
C: Tueddiadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	36
D: Budd-dal y Dreth Gyngor: Apeliadau	42

Crynodeb o Dablau a Ffigyrau

Tabl 1:	Llwyth Achosion a Gwariant Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru: 2007/08 – 2012-13	11
Tabl 2:	CGDG: Cyfanswm Gostyngiadau 2013/14	13
Tabl 3:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth Achosion fesul Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2014	15
Tabl 4:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Cyfanswm Gostyngiadau fesul Awdurdod Lleol (£), mis Mawrth 2014	17
Tabl 5:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Hawlwyr fesul Awdurdod Lleol a Statws Pasbortiwed, mis Mawrth 2014	21
Tabl 5b:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog Fesul Statws Pasbortiwed, mis Mawrth 2014	22
Tabl 6:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Cyfanswm Gostyngiadau fesul Band (%), mis Mawrth 2014	24
Tabl 7:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog fesul Nodwedd Aelwyd (£)	26
Tabl 8:	Apeliadau Tribiwnlys Prisio Cymru	27
Ffigwr 1:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth Achosion yng Nghymru: mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014	14
Ffigwr 2:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Cyfanswm Gostyngiadau yng Nghymru (£): mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014	16
Ffigwr 3:	Derbynwyr Gostyngiad y Dreth Gyngor fesul Statws Pasbortiwed: mis Mawrth 2014	18
Ffigwr 4:	Llwyth Achosion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru fesul Band (%), mis Mawrth 2014	22

Tabl B1:	Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol: mis Chwefror 2009 i fis Chwefror 2013	30
Tabl B2:	Gwariant Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol (£ miliynau): 2009 i 2013	31
Tabl B3:	Llwyth achosion Budd-dal y Dreth Gyngor perthynol i Aelwydydd Agored i Dalu (%): Chwefror 2013	34
Tabl B4:	Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol a Statws Pasbortiwyd: Chwefror 2013	35
Tabl C1:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth Achosion fesul Awdurdod Lleol: mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014	36
Tabl C2:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Cyfanswm Gostyngiadau fesul Awdurdod Lleol (£): mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014	37
Tabl C3:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth Achosion fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor, mis Mawrth 2014	38
Tabl C4:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Llwyth Achosion fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor (%), Mawrth 2014	39
Tabl C5:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Cyfanswm Gostyngiadau fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor (£): Mawrth 2014	40
Tabl C6:	Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Cyfanswm Gostyngiadau fesul Awdurdod Lleol a Band y Dreth Gyngor (%): Mawrth 2014	41
Tabl D1:	Derbyniadau Apeliadau Budd-dal y DU: 2010-11 i 2012-13	42
Tabl D2:	Penderfyniadau Tribiwnlys y DU mewn Achosion Apêl Budd-dal Tai/Budd-dal y Dreth Gyngor: 2010-11 i 2012-13	43
Tabl D3:	Penderfyniadau Tribiwnlys Cymru mewn Achosion Apêl Budd-dal Tai/Budd-dal y Dreth Gyngor: 2011-12 i 2012-13	43
Ffigwr B1:	Derbynwyr Budd-dal y Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol: mis Chwefror 2013	32
Ffigwr B2:	Budd-dal y Dreth Gyngor: Gwariant gaiff Gymhorthdal yr AGPh fesul Awdurdod Lleol 2011-12	33

Crynodeb Gweithredol

1. Ar 1 Ebrill 2013, daeth Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG) i gymryd lle Budd-dal y Dreth Gyngor (BDG) yng Nghymru, a chafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynlluniau newydd. Mae Rheoliadau CGDG yn seiliedig yn agos iawn ar reolau blaenorol BDG.
2. Wedi i Lywodraeth y DU ddiddymu BDG, parhaodd oddeutu 320,000 o aelwydydd yng Nghymru i dderbyn eu hawl llawn i gymorth trwy Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd yn 2013-14.
3. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf am weithrediad CGDG yng Nghymru yn ystod 2013-14, er mwyn cael mwy o dryloywder mewn maes lle mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid sylweddol. Cafwyd y data a ddefnyddiwyd o Datatank. Erfyn modelu a rhagweld yw Datatank, sydd yn tynnu allan fanylion llwyth achosion a chyfanswm gostyngiadau CGDG o systemau craidd Refeniw a Budd-daliadau Awdurdodau Lleol yn fisol, ac yn rhagamcanu'r data hyn ymlaen tan ddiwedd y flwyddyn.
4. Drwy gydol yr adroddiad hwn dylid nodi, yn wahanol i BDG, nad yw'r cynlluniau gostyngiadau newydd yn rhan o'r system budd-daliadau lles ac nid yw'r cyllid a ddarperir yn cael ei *wario* ar aelwydydd cymwys. Caiff y cyllid ei ddarparu i Awdurdodau Lleol i gymryd lle incwm y Dreth Gyngor a fyddai fel arall yn cael ei godi gan aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth ac yn gwneud cais amdano. Gall awdurdodau wario'r arian hwn ar unrhyw rai o'r gwasanaethau lleol y maent yn eu darparu. Yr effaith ar yr aelwydydd cymwys yw eu bod yn talu bil Treth Gyngor llai neu ddim bil. Mae unrhyw gyfeiriadau at gostau neu wariant ynghylch cynlluniau gostyngiadau mewn gwirionedd yn cyfeirio at gyfanswm y gostyngiad yn atebolrwydd y Cyngor ar gyfer yr aelwydydd dan sylw.
5. Dyma ddengys penawdau'r data:
 - Derbyniodd 316,732 Gynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor yng Nghymru ym mis Mawrth 2014, gyda gostyngiad wythnosol cyfartalog o £14.79, sy'n rhoi amcangyfrif o gyfanswm gostyngiad blynyddol o ryw £244.3 miliwn.
 - £247.8 miliwn oedd cyfanswm amodol gwerth y gostyngiadau drwy Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru yn 2013-14.
 - Mae llwyth achosion a chyfanswm gostyngiadau CGDG ill dau wedi gostwng dros y flwyddyn o 2% a 1.9% (nid yw hyn yn cynnwys achosion a gaewyd yn ystod y flwyddyn gyfan).
 - Y sefyllfa ym mis Mawrth 2014, ar draws Cymru, oedd bod cyfran fwy o'r rhai oedd yn derbyn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi cael eu

pasbortio (70 y cant) na'r rhai na chafodd eu pasbortio. Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig) oedd y math mwyaf cyffredin o fudd-dal oedd gan y rhai a basbortwyd, ac yr oedd hyn yn cyfrif am tua 30 y cant o'r holl achosion CGDG.

- Darparwyd tua 79 y cant o'r cymorth a ddarparwyd dan CGDG ar draws Cymru i aelwydydd oedd yn byw mewn eiddo ym Mandiau A i C.
- Derbyniodd dros 133,000 o bensiynwyr (42 y cant) yng Nghymru CGDG ym Mawrth 2014.

1. Cefndir

Yn yr Adolygiad o Wariant 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n gwneud i ffwrdd â Budd-dal y Dreth Gyngor (BDG) ac yn rhoi'r cyfrifoldeb dros ddatblygu trefniadau yn ei le i Awdurdodau Lleol yn Lloegr. Ar yr un pryd, cyhoeddodd ei gynlluniau i drosglwyddo cyllid i'r Gweinyddiaethau Datganoledig gyda'r disgwyliad y byddai'n sefydlu trefniadau newydd yn yr Alban a Chymru a hefyd cyhoeddodd y byddai'r cyllid am drefniadau yn y dyfodol i ddarparu Cymorth y Dreth Gyngor yn cael ei dorri o 10% i ddechrau. Byddai'r cyllid hefyd yn cael ei drosglwyddo o gyllidebau a arweinid gan alw i gyllidebau sefydlog.

Ar 1 Ebrill 2013, daeth Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG) i gymryd lle BDG yng Nghymru, a chafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r Cynlluniau newydd. Yr oedd y Rheoliadau CGDG Newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru am 2013-14, yn seiliedig yn agos iawn ar y rheolau BDG blaenorol. Yn bwysig iawn, parhaodd hawlwr presennol BDG yng Nghymru (tua 320,000 o aelwydydd ar ddechrau 2013) i dderbyn eu hawl llawn i gymorth i dalu eu Treth Gyngor. Yr oedd hyn o ganlyniad i gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud iawn am y diffyg a basiwyd ymlaen gan Lywodraeth y DU. Cafodd Awdurdodau Lleol hefyd ddisgresiwn lleol mewn rhai meysydd, oedd yn caniatáu iddynt gymryd anghenion a blaenoriaethau eu hardaloedd lleol i ystyriaeth.

Yn ogystal â'r prif Reoliadau a gyflwynodd CGDG yng Nghymru, gwnaed nifer o setiau eraill o Reoliadau er mwyn sicrhau y byddai'r Cynlluniau yn rhedeg yn effeithiol - er enghraifft, ymchwilio i dwyll, rhannu gwybodaeth ac apelïadau. Mae **Atodiad A** yn rhoi mwy o fanylion am y Rheoliadau hyn.

Mae'r Adroddiad Blyneddol hwn yn cyfoesi'r Adroddiad Interim a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2013¹ ar weithrediad Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru. Mae'n rhoi data ar lefel Cymru ar gyfanswm gwerth cymorth am y flwyddyn ariannol 2013-14, yn ogystal â thueddiadau llwyth achosion a gwerth y gostyngiadau ers cyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'n rhoi data ar lefel Awdurdod Lleol fel modd o edrych i mewn i amrywiadau rhanbarthol dros y flwyddyn.

¹ <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/counciltax/council-tax-support/council-tax-reduction-schemes-in-wales-interim-report/?lang=cy>

2. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2013-14

Beth yw pwrpas Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor?

O 1 Ebrill 2013 ymlaen, daeth Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gymryd lle Budd-dal y Dreth Gyngor. CGDG yw'r mecanweithiau newydd i Awdurdodau Lleol roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel i dalu eu Treth Gyngor. Yr oedd parhau i ddarparu'r cymorth hwn yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ac y mae hefyd yn rhan o Strategaeth Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer CGDG yn seiliedig yn agos iawn ar system flaenorol y BDG ond y maent yn ymgorffori nifer o gamau i'w symleiddio. Mae hyn yn gwneud pethau'n llai cymhleth i ymgeiswyr ac i Awdurdodau Lleol.

Yn 2013-14, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol i'w cynorthwyo i roi i ymgeiswyr cymwys yr holl gefnogaeth yr oedd ganddynt hawl iddo, ar waetha'r gostyngiad mewn cyllid a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU.

Pwy sydd â hawl i Ostyngiad y Dreth Gyngor?

Cafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig o Fudd-dal y Dreth Gyngor i Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn Ebrill 2013. Fel gyda BDG, mae aelwydydd gyda'r hawl i fudd-daliadau allan-o-waith sy'n destun prawf modd² yn parhau i fod yn gymwys am yr hawl gostyngiad uchaf (100% ar hyn o bryd, llai unrhyw ddidyniadau am y rhai nad ydynt yn ddibynyddion). I aelwydydd eraill, mae'r hawl yn cael ei gyfrifo trwy brawf modd sydd yn adlewyrchu'r agwedd a ddefnyddid cynt i gyfrifo'r hawl i BDG.

Nid oes gan ymgeiswyr sydd â chynilon dros £16,000 hawl i unrhyw gymorth onid ydynt yn derbyn Gwarant Credyd Pensiwn.

² Lwfans Cymorth a Chyflogaeth, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisiwr Gwaith, Credyd Pensiwn a Gwarant Credyd Pensiwn.

Gwneir ceisiadau am Ostyngiad y Dreth Gyngor yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol a all roi manylion llawn am y broses ymgeisio yn ogystal â manylion am unrhyw ddisgresiwn lleol sydd ganddynt. Mae mwy o gyngor i ddarpar-ymgeiswyr hefyd ar gael gan Gyngor ar Bopeth³.

Sut mae cyfrifo'r hawl i Ostyngiad y Dreth Gyngor?

Mae'r hawl ar hyn o bryd yn cael ei gyfrifo yn yr un modd ag yr arferid ei wneud dan system Budd-dal y Dreth Gyngor. Os bydd ymgeiswyr yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm, Credyd Pensiwn, neu Warant Credyd Pensiwn, mae ganddynt hawl i'r gostyngiad mwyaf yn swm y Dreth Gyngor mae'n rhaid iddynt dalu, sef ar hyn o bryd gostyngiad i sero (llai unrhyw ddiidyniadau am y rhai nad ydynt yn ddibynyddion). Yr enw cyffredin ar yr hawl hwn, seiliedig ar dderbyn budd-daliadau eraill sy'n eu cymhwyso, yw '**pasbortio**'.

Os nad yw ymgeisydd yn derbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau hyn a basbortwyd, mae'r swm wythnosol o arian y bernir mae arno ei angen i fyw arno yn cael ei gyfrifo. Y **swm cymwys** yw'r enw ar hwn, ac y mae mewn dau ran:

- Y rhan gyntaf yw'r **lwfans personol** – y swm sylfaenol sydd ar unigolyn ei angen i fyw arno, sy'n amrywio yn ôl amgylchiadau'r aelwyd. Er enghraifft, mae'r lwfans i bâr gyda phlant yn uwch nag ar gyfer rhywun sengl heb blant. Mae'r lwfansau hyn hefyd yn cael eu gosod ar gyfradd uwch i'r rhai sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- Yr ail ran yw'r **premiwm** – symiau sy'n cael eu hychwanegu i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau personol sy'n cynyddu cost byw, megis anabledd neu gyfrifoldebau gofalwr.

Unwaith i'r swm cymwys gael ei bennu, bydd **lefel incwm** yr ymgeisydd yn cael ei gyfrifo. Mae hyn yn cynnwys yr union incwm (megis o gyflogaeth, pensiynau neu rai

³

http://www.citizensadvice.org.uk/index/policy/policy_publications/cr_wales.htm

budd-daliadau eraill), ac incwm y rhagdybir sy'n cael ei ennill o arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â phensiwn dros £6,000 (£10,000 i bensiwnwyr). Mae swm bychan o enillion hefyd yn cael ei ddiystyru wrth gyfrifo incwm. Er enghraifft, mae symiau diystyru safonol ar gyfer pobl sengl a rhieni sengl, a rhai uwch i grwpiau penodol megis pobl ag anableddau.

Mae'r lefel incwm wedyn yn cael ei gymharu â'r swm cymwys. Os yw'r swm cymwys yn uwch na'r incwm a gyfrifwyd ar gyfer ymgeisydd, bydd ganddo/i hawl i'r gostyngiad uchaf yn swm y Dreth Gyngor a delir. Os yw'r incwm yn fwy na'r swm cymwys, gostyngir yr hawl wythnosol o 20c am bob £1 o incwm wythnosol dros ben – y tapr yw'r enw ar hyn.

Beth yw'r meysydd Disgresiwn Lleol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol?

Dan y Rheoliadau newydd, bu'n rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru fabwysiadu eu cynllun eu hun erbyn 31 Ionawr 2013. Roedd y cynlluniau'n cynnwys meysydd disgresiwn lleol er mwyn dwyn anghenion a blaenoriaethau'r ardal leol i ystyriaeth. Mabwysiadodd pob Awdurdod gynllun, er petai unrhyw un heb wneud hynny, buasid wedi gosod y cynllun diodyn er mwyn sicrhau y byddai aelwydydd cymwys yn dal i dderbyn cymorth ariannol i dalu eu Treth Gyngor.

Dyma'r meysydd disgresiwn lleol lle gall Awdurdod Lleol ddewis gweithredu darpariaethau sydd yn fwy hael nag isafswm y gofynion a osodir allan yn y Rheoliadau:

- *Cyfnod gostyngiad estynedig* – Gall Awdurdodau Lleol ymestyn y cyfnod pryd y bydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i dderbyn gostyngiad dan rai amgylchiadau, y tu hwnt i'r cyfnod safonol o bedair wythnos;
- *Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwr Rhyfel* – Gall Awdurdodau Lleol ddiystyru mwy na'r £10 a nodir trwy statud o'r arian a dderbynnir fel y pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm;

- *Ôl-ddyddio ceisiadau* - Gall Awdurdodau Lleol ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod safonol o dri mis; a
- *Hysbysiadau am benderfyniad* – Gall Awdurdodau Lleol ddarparu mwy nag isafswm y wybodaeth a ragnodwyd fel rhan o'u gweithdrefnau hysbysu am benderfyniad.

Yn 2013-14, mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol wedi gwneud y canlynol: **cadw**’r cyfnod safonol o bedair wythnos pryd y mae gan ymgeiswyr yr hawl i barhau i dderbyn gostyngiad dan rai amgylchiadau (cyfnod y gostyngiad estynedig); **diystyru** Pensiynau Rhyfel yn llwyr wrth gyfrifo incwm; a **gweithredu** cyfnod o dri mis lle gellir ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau. Nodwyd nifer o amrywiadau ynghylch hysbysu am benderfyniadau. Mae modd dod o hyd i fanylion cynllun pob Awdurdod Lleol ar eu gwefannau unigol.

3. Tueddiadau Hanesyddol Budd-dal y Dreth Gyngor

Cyflwynwyd Budd-dal y Dreth Gyngor o 1 Ebrill 1993 ymlaen a bu'n gweithredu tan 31 Mawrth 2013. Fel y dengys **Tabl 1**, yn 2008-09, yr oedd tua 293,000 o bobl yn derbyn BDG yng Nghymru. O 2008-09 ymlaen, cynyddu bob blwyddyn wnaeth nifer y rhai oedd yn derbyn BDG, a phan wnaed i ffwrdd â'r budd-dal ar 31 Mawrth 2013, yr oedd 329,000 o bobl yng Nghymru yn ei dderbyn. Rhwng 2008-09 a 2009-10, tyfodd nifer y rhai oedd yn ei dderbyn o 17,000. Mae'n debyg fod effaith y dirwasgiad diweddar wedi cynyddu llwyth yr achosion yn ystod y cyfnod hwn. Mewn cymhariaeth, rhwng 2011-12 a 2012-13 cynyddodd nifer y rhai oedd yn derbyn BDG o ryw 3,000.

Mae **Tabl 1** hefyd yn dangos sut y cynyddodd gwariant BDG bob blwyddyn o 2008-09 ymlaen. Dengys y data fod y ffigwr diweddaraf yn rhyw £251.2 miliwn ar gyfer 2012-13 (gyda gwariant BDG a gaiff gymhorthdal yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh)⁴ ar ryw £247 miliwn). Am yr un cyfnod, ar gyfartaledd, derbyniodd pobl £763 tuag at y Dreth Gyngor yr oeddent yn agored i'w dalu.

Tabl 1: Llwyth Achosion a Gwariant ar BDG yng Nghymru, 2008-09 i 2012-13

	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13
Llwyth Achosion Cymru	293,000	310,000	322,000	326,000	329,000
Gwariant (£ miliwn)	199.6	222.7	237.9	246.1	251.2
Gwariant gaiff gymhorthdal yr AGPh (£ miliwn)	Ddim ar gael	Ddim ar gael	232.7	242	247

Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau

Mae **Atodiad B** yn rhoi cyfrif hanesyddol o'r rhai sy'n derbyn BDG a gwariant BDG fesul Awdurdod Lleol yng Nghymru o Chwefror 2008-09 tan 2012-13. Mae hefyd yn dangos, yn nhermau canrannau, lwyth achosion BDG fesul Awdurdod Lleol yn berthynol i'w haelwydydd sydd yn agored i dalu, yn ogystal â nifer y rhai yn derbyn BDG oedd 'wedi eu pasbortio' a 'heb eu pasbortio' fel ag yr oedd ar Chwefror 2013.

⁴ Mae a wnelo 'Gwariant' â chyfanswm cost Budd-dal y Dreth Gyngor i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae a wnelo 'Gwariant gaiff Gymhorthdal gan yr AGPh' â'r cyfanswm a ad-delir i Awdurdodau Lleol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

4. Gweithrediad Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru 2013/14

Wedi ystyried data hanesyddol BDG, mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â gweithrediad CGDG, a gymerodd le'r system BDG o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, dylid nodi, yn wahanol i BDG, nad yw'r cynlluniau gostyngiadau newydd yn rhan o'r system budd-daliadau lles ac nad yw'r cyllid a ddarperir yn cael ei *wario ar* yr aelwydydd cymwys. Caiff y cyllid ei ddarparu i Awdurdodau Lleol i gymryd lle'r incwm Dreth Gyngor a fyddai fel arall yn cael ei godi ar aelwydydd sy'n gymwys am gymorth ac yn gwneud cais amdano. Gall awdurdodau wario'r arian hwn ar unrhyw rai o'r gwasanaethau lleol y maent yn eu darparu. Yr effaith i aelwydydd cymwys yw eu bod yn talu bil Treth Gyngor sy'n llai neu yn ddim. Mae unrhyw gyfeiriadau at gostau wariant ar y cynllun yn cyfeirio mewn gwirionedd at faint o ostyngiad sydd yn yr hyn mae'n rhaid i'r aelwydydd dan sylw dalu mewn Treth Gyngor.

Nodyn am fethodoleg

Casglwyd data am gyfanswm gostyngiadau CGDG am flwyddyn ariannol 2013-14 (Adran 4.1) oddi wrth bob Awdurdod Lleol unigol. *Mae'r data hyn yn cynnwys y gostyngiadau mewn achosion sydd wedi cau yn ystod y flwyddyn.* Cafwyd y data sydd weddill o Datatank. Erfyn modelu a rhagweld yw Datatank, sydd yn tynnu allan fanylion llwyth achosion a chyfanswm gostyngiadau CGDG o systemau craidd Refeniw a Budd-daliadau Awdurdodau Lleol fel ciplun misol ac yn rhagamcanu'r data hyn ymlaen tan ddiwedd y flwyddyn.

Mae'n bwysig nodi fod Datatank yn rhoi gwybodaeth fanwl am achosion byw yn unig. Felly, seilir llawer o'r dadansoddiadau canlynol ar adroddiadau ciplun misol ar achosion sydd yn dal ar agor ar bwynt penodol mewn amser. Mae'r adroddiadau hyn yn ddefnyddiol gan eu bod yn caniatáu i ni olrhain tueddiadau a phatrymau dros y flwyddyn.

4.1. Cyfanswm Gostyngiadau 2013-14

£247.8 miliwn oedd cyfanswm amodol y gostyngiadau (yn amodol ar brosesau gwirio Llywodraeth Cymru) ar CGDG am 2013-14. Fel y dengys **Tabl 2**, mewn termau real, yng Nghaerdydd oedd y cyfanswm gostyngiadau mwyaf, yn rhyw £27.8 miliwn, ac ar ei isaf yng Ngheredigion ar ryw £4.8 miliwn. Fodd bynnag, mae gan Flaenau Gwent a Merthyr Tudful gyfran uwch o aelwydydd agored i dalu sydd yn derbyn CGDG, felly mae gostyngiadau yn yr awdurdodau hyn yn uwch mewn termau cymharol (gweler **Tabl 3**).

Tabl 2: CGDG: Cyfanswm Gostyngiadau 2013-14


	Cyfanswm Gostyngiadau 2013-14	Cyfran o'r Gostyngiadau (%)
CYMRU	£247,881,997	100%
Ynys Môn	£5,311,296	2.1%
Gwynedd	£9,040,394	3.6%
Conwy	£9,052,677	3.7%
Sir Ddinbych	£9,390,635	3.8%
Sir y Fflint	£10,116,776	4.1%
Wrecsam	£10,194,511	4.1%
Powys	£8,196,133	3.3%
Ceredigion	£4,807,159	1.9%
Sir Benfro	£7,306,368	2.9%
Sir Gaerfyrddin	£14,470,809	5.8%
Abertawe	£19,283,435	7.8%
Castell Nedd Port Talbot	£15,892,816	6.4%
Pen-y-bont	£12,777,361	5.2%
Bro Morgannwg	£9,099,966	3.7%
Caerdydd	£27,795,731	11.2%
Rhondda, Cynon, Taf	£22,509,386	9.1%
Merthyr Tudful	£5,965,627	2.4%
Caerffili	£13,650,297	5.5%
Blaenau Gwent	£8,574,553	3.5%
Torfaen	£8,110,975	3.3%
Sir Fynwy	£5,996,147	2.4%
Casnewydd	£10,338,945	4.2%

4.2. Llwyth Achosion – Tueddiadau a Phatrymau

Ym Mawrth 2014, yr oedd llwyth yr achosion CGDG yn 316,732. Dengys hyn fod y llwyth achosion byw yn gyffredinol ar gyfer Cymru wedi gostwng fesul mis ers cyflwyno CGDG (ac eithrio am fis Chwefror 2014). Gellid priodoli peth o'r cwmp cychwynnol mewn llwyth achosion i dynnu ymaith yr Ad-daliad Ail Oedolyn (AAO)⁵ ond gall newidiadau eraill, fel y diwygiadau lles ehangach yn ogystal â gwelliant cyffredinol yn yr economi, hefyd fod wedi cael effaith.

Cwmpo wnaeth y llwyth achosion o 2% dros y flwyddyn, sef gostyngiad o ryw 6,500 achos. Mae'r data hyn yn cyd-fynd â chwmp tebyg yn y llwyth achosion mewn Budd-dal Tai yng Nghymru ers Ebrill 2013, er bod y cwmp hwnnw'n llai (i lawr o ryw 0.7% hyd at Chwefror 2013). Fel y dengys **Ffigwr 1**, digwyddodd y cwmp mwyaf mewn llwyth achosion rhwng misoedd Mehefin a Gorffennaf 2013.

Ffigwr 1: CGDG: Llwyth achosion yng Nghymru, mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014



Ffynhonnell: Datatank

⁵ Cynlluniwyd AAO i wneud iawn am golli disgownt person sengl pe byddai ail oedolyn neu fwy (heb fod yn ddibynol) yn preswyllo. Yr oedd gan bobl oedd yn hawlio AAO incwm y tybid oedd yn rhy uchel iddynt fod yn gymwys am ostyngiad arferol dan y cynllun BDG ac yr oedd y cymorth a dderbynient yn seiliedig yn unig ar incwm y rhai nad oedd yn dibynnu arnynt, gydag incwm a chyfalaf yr ymgeisydd yn cael ei anwybyddu. Cymharol ychydig o hawlwr yng Nghymru oedd yn derbyn AAO (tua 2,000). Hawl ydoedd wedi ei dargedu at unigolion oedd yn gymharol dda eu byd o'u cymharu ag eraill oedd yn derbyn BDG, ac yr oedd hefyd yn gymhleth i'w weinyddu. O wneud i ffwrdd ag AAO, gostyngwyd gwariant ar draws Cymru, gan adael i'r cyllid sefydlog gan y Llywodraeth Ganol fynd ymhellach tuag at roi cymorth i ymgeiswyr tlotach. Ysgafnaodd hefyd y baich gweinyddol ar Awdurdodau Lleol.

Dengys **Tabl 3** fod y llwyth achosion CGDG ar ei uchaf yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf (RhCT), tra bod y llwyth achosion mewn rhanbarthau megis Ceredigion a Sir Fynwy yn is o lawer. Mae'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu tueddiadau'r llwyth achosion am BDG cyn ei ddileu.

Tabl 3: CGDG Llwyth achosion fesul Awdurdod Lleol: Mawrth 2014

	Llwyth achosion: Mawrth 2014	Cyfran o Lwyth achosion (%)	Newid mewn Llwyth achosion ers Mai 2013 (%)	Aelwydydd sy'n agored i dalu'r Dreth Gyngor	Llwyth achosion perthynol o aelwydydd agored i dalu (%)
Cymru	316,732	100	-1.6	1,417,954	22.3
Ynys Môn	6,951	2.2	-1.9	34,292	20.3
Gwynedd	10,796	3.4	-2.2	63,249	17.1
Conwy	11,728	3.7	-1.7	57,024	20.6
Sir Ddinbych	10,808	3.4	-0.5	49,232	22.0
Sir y Fflint	12,723	4.0	-1.3	66,073	19.3
Wrecsam	12,656	4.0	-7.0	59,350	21.3
Powys	10,378	3.3	0.2	64,845	16.0
Ceredigion	5,796	1.8	-1.5	35,534	16.3
Sir Benfro	11,592	3.7	0.2	63,518	18.2
Sir Gaerfyrddin	18,166	5.7	-1.7	85,059	21.4
Abertawe	26,218	8.3	-2.7	111,141	23.6
Castell Nedd Port Talbot	18,877	6.0	-0.7	65,107	29.0
Pen-y-bont	15,252	4.8	-3.0	61,772	24.7
Bro Morgannwg	10,397	3.3	-4.7	55,713	18.7
Caerdydd	34,399	10.9	-3.4	150,735	22.8
RhCT	28,777	9.1	-1.4	109,881	26.2
Merthyr Tudful	7,941	2.5	2.5	26,813	29.6
Caerffili	19,937	6.3	-0.8	77,948	25.6
Blaenau Gwent	10,265	3.2	-3.0	34,566	29.7
Torfaen	10,856	3.4	-3.5	40,589	26.7
Sir Fynwy	6,528	2.1	-4.6	40,862	16.0
Casnewydd	15,691	5.0	-0.1	64,651	24.3

Ffynhonnell: Datatank

Mae **Tabl 3** yn ystyried amrywiadau rhanbarthol mewn llwyth achosion mewn cymhariaeth â phob eiddo sy'n agored i dalu'r Dreth Gyngor. Dengys fod gan Bowys,


Ceredigion a Sir Fynwy lwyth achosion llai o ran CGDG mewn cymhariaeth â'r holl aelwydydd sy'n agored i dalu (16%). Blaenau Gwent a Merthyr sydd â'r llwyth achosion mwyaf mewn cymhariaeth â'r aelwydydd agored i dalu (30%).

Dengys **Tabl 3** hefyd fod 20 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi gweld gostyngiadau mewn llwyth achosion dros y cyfnod mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014. Yn Wrecsam y cafwyd y gostyngiad mwyaf (minws 7%). Gwelodd Sir Benfro a Phowys godiadau bychain yn eu llwyth achosion (0.2%).

4.3. Cyfanswm Gostyngiadau – Tueddiadau a Phatrymau

Roedd cyfanswm y gostyngiadau o dan CGDG oddeutu £244.3 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2014 (er nad yw hyn yn cynrychioli'r holl ostyngiadau am nad yw'n cynnwys achosion a gaewyd). Unwaith eto, dengys y data fod cyfanswm y gostyngiadau wedi gostwng fis ar ôl mis ers cyflwyno CGDG (ac eithrio am fis Chwefror 2014), o gyfanswm o 1.9% ers Mai 2013, sy'n cyd-fynd a thueddiadau llwyth achosion (gweler **Ffigwr 2**).

Ffigwr 2: Cyfanswm y Gostyngiadau CGDG yng Nghymru (£), mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014



Ffynhonnell: Datatank

Dengys **Tabl 4** fod cyfanswm y gostyngiadau ar ei uchaf yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf – ar ryw £27.3 miliwn a £22.3 miliwn yn y drefn honno, ac yng Ngheredigion ac Ynys Môn mae oddeutu £4.7 miliwn a £5.2 miliwn. Unwaith eto, dylid ystyried y ffigyrau hyn yng nghyd-destun nifer yr aelwydydd agored i dalu oherwydd bod cyfanswm y gostyngiadau mewn termau cymharol yn parhau i fod yn uwch mewn ardaloedd fel Merthyr a Blaenau Gwent.

Dengys **Tabl 4** hefyd fod y 22 Awdurdod Lleol wedi gweld cwmp ym nghyfanswm y gostyngiadau dros y cyfnod mis Mai 2013 i fis Mawrth 2014. Ym Mhen-y-bont a Sir y Fflint y cafwyd y cwmp mwyaf (-4.1% a -2.8% yn y drefn honno). Am ddadansoddiad llawn ar gyfer 2013-14, gweler **Atodiad C**. Eto, mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys gwybodaeth am achosion a gaewyd.

Nid yw cwmp mwy mewn llwyth achosion o raid wedi ei adlewyrchu yng nghyfanswm y gostyngiadau. Er enghraifft, cwmpodd y llwyth achosion o 7% yn Wrecsam dros y flwyddyn, ond dim ond o 2.6% oedd cwmp cyfanswm y gostyngiadau. Bydd codiadau neu ostyngiadau yng nghyfanswm y gostyngiadau yn dibynnu ar natur llif i mewn/allan o ymgeiswyr dros y cyfnod (statws pasbortiwyd, band eiddo ymgeiswyr etc.). Yn yr un modd, nid yw cynnydd bychan mewn llwyth achosion (+0.2% ym Mhowys dros y flwyddyn) o raid yn cael ei adlewyrchu yn y ffigurau ariannol (-2.1% ym Mhowys).

Tabl 4: Cyfanswm y Gostyngiadau CGDG fesul Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2014


	Gostyngiad ym mis Mawrth 2014 (£)	Cyfran o'r ganran	Newid ers mis Mai 2013 (%)
Cymru	244,334,266	100	-2.0
Ynys Môn	5,164,570	2.1	-2.6
Gwynedd	8,845,839	3.6	-2.4
Conwy	8,942,110	3.7	-1.3
Sir Ddinbych	9,338,914	3.8	-1.8
Sir y Fflint	10,035,253	4.1	-2.8
Wrecsam	9,920,861	4.1	-2.6
Powys	8,078,933	3.3	-2.1
Ceredigion	4,774,155	2.0	-1.6
Sir Benfro	7,209,129	3.0	-1.4

Sir Gaerfyrddin	14,224,938	5.8	-1.6
Abertawe	19,106,492	7.8	-1.0
Castell Nedd Port Talbot	16,014,283	6.6	-2.7
Pen-y-bont	12,581,266	5.1	-4.1
Bro Morgannwg	8,705,661	3.6	-1.7
Caerdydd	27,274,393	11.2	-1.7
RhCT	22,335,341	9.1	-1.3
Merthyr Tudful	5,862,801	2.4	-1.3
Caerffili	13,463,016	5.5	-2.5
Blaenau Gwent	8,398,443	3.4	-2.2
Torfaen	7,994,950	3.3	-2.7
Sir Fynwy	5,785,567	2.4	-0.5
Casnewydd	10,277,351	4.2	-1.9

Ffynhonnell: Datatank

4.4. Statws Pasbortiwyr

Ffigwr 3: CGDG Hawlwyr fesul Statws Pasbortiwyr: Mawrth 2014



Dengys **Ffigwr 3** fel ag yr oedd pethau ym mis Mawrth 2014, ar hyd a lled Cymru, fod cyfran uwch o'r rhai oedd yn derbyn CGDG wedi eu pasbortio (70%) na'r rhai

oedd yn destun prawf modd (30%). Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig) oedd y math mwyaf cyffredin o fudd-dal oedd gan y rhai wedi eu pasbortio, oedd yn cyfrif am oddeutu 43% o achosion a basbortiwyd a 30% o'r holl achosion CGDG (wedi a heb eu pasbortio). Y math nesaf mwyaf cyffredin o fudd-dal oedd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, sef 19% o'r holl achosion CGDG. Mae'r rhai sydd yn derbyn CGDG ac wedi eu pasbortio am eu bod yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisiwr Gwaith yn cyfrif am oddeutu 12% a 9% o bob achos CGDG.

Dengys **Tabl 5** fod canran y rhai wedi eu pasbortio a heb eu pasbortio yn amrywio yn ôl yr Awdurdod Lleol. Yng Nghasnewydd, yr oedd tua 74% o'r bobl oedd yn derbyn cymorth wedi eu pasbortio, o gymharu â Sir Fynwy lle'r oedd tua 64% o ymgeiswyr wedi eu pasbortio. Mae'r ffigyrau hyn yn debyg i'r cyfrannau o lwyth achosion wedi a heb eu pasbortio dan Fudd-dal y Dreth Gyngor.

Mae peth amrywiad ar lefel Awdurdod Lleol ynghylch statws pasbortiwyd fesul math o fudd-dal. Gan Wynedd oedd y gyfran uchaf o rai ar Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig) ar 36.8%, o gymharu â Chaerdydd (25.3%). Yr Awdurdod Lleol gyda'r gyfran uchaf o'r achosion oedd yn derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth oedd Abertawe gyda 21.4%, o gymharu â'r isaf, sef 14.2% yn Ynys Môn a Gwynedd. Casnewydd oedd â'r gyfran uchaf o achosion ar Gymhorthdal Incwm (14.7%) o gymharu â Gwynedd a Cheredigion (8.1%). Casnewydd hefyd oedd â'r gyfran uchaf o achosion ar Lwfans Ceisiwr Gwaith, 13.5% o bob achos, tra bod yr isaf gan Wrecsam (5.7%).

4.5. Gostyngiad Cyfartalog fesul Statws Pasbortiwyd

Dengys **Tabl 5b** fod y gostyngiad wythnosol cyfartalog a dderbyniwyd gan hawlwr hefyd yn amrywio fesul Awdurdod Lleol ac yn ôl statws pasbortiwyd. Y gostyngiad cyfartalog i bawb a'i derbyniodd oedd £14.79 yr wythnos (£771 y flwyddyn) ym Mawrth 2014. Yr achosion heb eu pasbortio a dderbyniodd y swm isaf, £12.37, o gymharu â'r rhai ar Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig) a dderbyniodd £16.37 yr wythnos ar gyfartaledd. Mae achosion heb eu pasbortio yn fwy tebygol o dderbyn gostyngiad rhannol (a thrwy hynny ostwng y gostyngiad wythnosol cyfartalog i'r grŵp hwn); tra bod y rhai sy'n cael Credyd Pensiwn yn derbyn 100% o CGDG. Mae

pensiynwyr hefyd yn dueddol o fyw mewn eiddo sydd mewn bandiau uwch (a thrwy hynny gynyddu'r gostyngiad wythnosol cyfartalog i'r grŵp hwn).

Sir Fynwy oedd yr Awdurdod Lleol gyda'r gostyngiad wythnosol cyfartalog uchaf gyda £17.00 yr wythnos, a'r isaf oedd Sir Benfro gyda £11.93. Mae nifer o ffactorau yn debyg o gyfrif am y gwahaniaethau hyn, yn bennaf taliadau'r Dreth Gyngor (sydd yn gymharol isel yn Sir Benfro), nifer yr ymgeiswyr ym mhob Band (er enghraifft, mae gan Sir Fynwy nifer uwch o'r rhai sy'n ei dderbyn sy'n byw mewn eiddo a fandwyd yn uwch) a nodweddion y boblogaeth leol (er enghraifft, gan Sir Fynwy hefyd y mae'r nifer isaf o ymgeiswyr a basbortwyd).

Tabl 5: CGDG: Derbynwyr fesul Awdurdod Lleol a Statws Pasbortiwyd: Mawrth 2014

Ffynhonnell: Datatank

	PAWB sy'n derbyn CGDG	Heb eu Pasbortio	Pawb a basbortiwyd	Dadansoddiad o'r Rhai sy'n Derbyn ac Wedi eu Pasbortio			
				Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisiwr Gwaith	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig)
CYMRU	316,732	30.3%	69.7%	12.2%	9.0%	18.6%	29.9%
Ynys Môn	6,951	30.6%	69.4%	9.9%	10.5%	14.2%	34.8%
Gwynedd	10,796	31.7%	68.3%	8.1%	9.1%	14.2%	36.8%
Conwy	11,728	28.6%	71.4%	10.9%	9.5%	15.3%	35.8%
Sir Ddinbych	10,808	29.4%	70.6%	11.2%	8.3%	17.7%	33.4%
Sir y Fflint	12,723	34.4%	65.6%	11.4%	7.9%	14.8%	31.5%
Wrecsam	12,656	32.8%	67.2%	11.7%	8.6%	15.6%	31.2%
Powys	10,378	35.2%	64.8%	8.7%	5.7%	15.7%	34.7%
Ceredigion	5,796	32.7%	67.3%	8.1%	6.1%	18.8%	34.2%
Sir Benfro	11,592	32.1%	67.9%	10.4%	8.5%	16.2%	32.8%
Sir Gaerfyrddin	18,166	32.5%	67.5%	10.5%	7.3%	17.7%	32.0%
Abertawe	26,218	29.1%	70.9%	12.0%	7.9%	21.4%	29.6%
Castell Nedd Port Talbot	18,877	29.8%	70.2%	13.8%	7.2%	20.6%	28.5%
Pen-y-bont	15,252	32.4%	67.6%	14.0%	6.9%	21.0%	25.7%
Bro Morgannwg	10,397	31.1%	68.9%	12.4%	8.2%	18.6%	29.6%
Caerdydd	34,399	29.4%	70.6%	13.0%	11.6%	20.7%	25.3%
Rhondda Cynon Taf	28,777	27.2%	72.8%	14.4%	8.7%	20.8%	29.0%
Merthyr Tudful	7,941	32.8%	67.2%	13.9%	9.3%	18.6%	25.4%
Caerffili	19,937	26.7%	73.3%	13.4%	10.4%	19.3%	30.3%
Torfaen	10,856	32.6%	67.4%	12.8%	9.4%	18.8%	26.5%
Blaenau Gwent	10,265	29.2%	70.8%	12.0%	12.3%	19.3%	27.2%
Sir Fynwy	6,528	35.9%	64.1%	8.9%	7.0%	16.5%	31.8%
Casnewydd	15,691	26.3%	73.7%	14.7%	13.5%	18.2%	27.4%

Tabl 5b: CGDG: Gostyngiad wythnosol cyfartalog fesul Statws Pasbortiwyd (£), Mawrth 2014


Ffynhonnell: Datatank

	PAWB sy'n derbyn GDG	Heb eu Pasbortio	Pawb a basbortiwyd	Dadansoddiad o'r Rhai sy'n Derbyn ac Wedi eu Pasbortio			
				Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisiwr Gwaith	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig)
CYMRU	14.79	12.37	15.85	15.57	15.02	15.61	16.37
Ynys Môn	14.25	11.42	15.50	14.97	14.42	15.02	16.17
Gwynedd	15.71	13.28	16.84	16.37	15.87	16.30	17.40
Conwy	14.62	12.32	15.54	15.21	14.46	14.99	16.17
Sir Ddinbych	16.57	13.86	17.70	17.46	16.35	17.26	18.34
Sir y Fflint	15.13	12.70	16.40	16.19	15.85	16.04	16.78
Wrecsam	15.03	12.62	16.21	15.83	15.80	15.91	16.62
Powys	14.93	12.21	16.41	16.23	15.14	15.61	17.03
Ceredigion	15.80	13.71	16.81	16.33	15.68	15.98	17.59
Sir Benfro	11.93	9.69	12.98	12.46	11.79	12.62	13.64
Sir Gaerfyrddin	15.02	12.64	16.16	15.88	15.33	15.80	16.64
Abertawe	13.98	11.79	14.87	14.32	13.89	14.42	15.69
Castell Nedd Port Talbot	16.27	13.54	17.43	17.25	16.56	17.14	17.95
Pen-y-bont	15.82	13.28	17.04	16.80	16.29	16.82	17.54
Bro Morgannwg	16.06	13.49	17.22	16.86	16.49	16.77	17.85
Caerdydd	15.21	13.00	16.13	16.00	15.28	15.90	16.76
Rhondda Cynon Taf	14.89	12.48	15.78	15.47	15.27	15.79	16.08
Merthyr Tudful	14.16	10.37	16.01	15.81	15.58	16.10	16.21
Caerffili	12.95	10.46	13.86	13.79	13.40	13.96	13.98
Blaenau Gwent	15.69	12.92	16.83	16.70	16.60	17.06	16.83
Torfaen	14.12	11.57	15.36	15.12	15.03	15.19	15.71
Sir Fynwy	17.00	14.54	18.37	18.12	18.24	17.94	18.69
Casnewydd	12.56	10.42	13.33	13.23	12.81	13.15	13.74

4.6. Bandiau'r Dreth Gyngor

Mae **Ffigwr 4** yn rhoi trosolwg o lwyth yr achosion CGDG yn ôl Band y Dreth Gyngor ar lefel Cymru. Dengys fod dros hanner yr holl lwyth achosion wedi canoli mewn eiddo Band A a Band B. Mae **Atodiad C** yn rhoi dadansoddiad ar lefel Awdurdod Lleol o lwyth achosion CGDG fesul Band y Dreth Gyngor ym mis Mawrth 2014.

Ffigwr 4: CGDG: Llwyth achosion yng Nghymru fesul Band (%), Mawrth 2014



Ffynhonnell: Datatank

